

# MAWRION MÔN

Taith ynglŷn â hanes Cristnogaeth ym mro Eisteddfod Ynys Môn, Bodedern

gan John Aaron a Gwyn Davies

## Bodedern

Cychwynnwn ein taith ym Bodedern, o flaen Soar, capel y Wesleaid, Stryd Wesley (LL65 3TD). Yma dechreuodd y 'sblit' cyntaf yn hanes Wesleaid Cymru. Ar y pryd nid oedd hawl gan bregethwyr lleol yr enwad bregethu tu allan i'w cylchdaith eu hunain. Teimlai rhai ohonynt eu bod ar drugaredd y gweinidogion, a bod cyllid yr enwad wedi ei ganoli ar gynnal y gweinidogion yn lle cael ei ddefnyddio i hybu twf y mudiad. Ar 6 Hydref 1831, yma yn Soar, llofnodwyd datganiad gan saith o bregethwyr lleol Môn a Chaernarfon yn nodi eu bod yn ystyried trefn y Wesleaid yn anysgrhythurol. Diarddelwyd y saith a ffurfiasant grŵp o Fethodistiaid Wesleidd annibynnol – 'Y Wesle Bach' ar lafar gwlad. Erbyn 1835 cyfanswm yr aelodaeth yn eu heglwysi yng Nghymru a Lerpwl oedd 475, ond ni bu llwyddiant parhaol iddynt. Yr achos yn Soar, Bodedern, oedd un o'r rhai olaf i barhau'n annibynnol; dychwelodd at y Wesleaid yn 1904.

## Caergybi

Pen y daith ar yr A55 yw Caergybi, wrth gwrs. Mae Eglwys Gybi (LL65 1HG) wedi ei hadeiladu o fewn muriau'r hen gaer Rufeinig. Fe'i sefydlwyd gan Cybi (fl. OC 550), gŵr o Gernyw yn wreiddiol, maen debyg. Mae ei enw hefyd yn gysylltiedig ag eglwysi Llanybi (Llŷn), Llanybi (Ceredigion), a Llanybi-ar-Wysg (Gwent), ac mae'n bosibl iawn iddo dreulio amser yn cenhadu yn Iwerddon.

Ychydig strydoedd i'r de-orllewin o'r eglwys, rhwng Heol Edmund a Heol Upper Baptist, mae Bethel, capel y Bedyddwyr (LL65 1SA). Yma yn 1824 y galwyd William Morgan (1801–72) yn weinidog. Yr oedd yn hanu o Drefdraeth, sir Benfro. Ef oedd y gweinidog sefydlog cyntaf i'w ordeinio gan y Bedyddwyr ym Môn a bu yma am bron hanner can mlynedd. Christmas Evans a'i hordeiniodd, ac ef hefyd a bregethodd yn y gwasanaeth ordeinio. 'Yr oedd William Morgan i fyny â John Elias mewn gallu a dawn, er nad oedd yn rhagori arno,' oedd sylw Robert Jones, Llanllyfni. 'Brithir [ei] lyfrau preifat,' meddai'r Dr Tom Richards, 'â myfyrdodau nid annhebyg i feddyliau sobr difrifddwys y Piwritaniaid Philip Henry a Henry Maurice.' Ef, yn 1839, a ysgrifennodd y cofiant cyntaf i Christmas Evans, gan gyflwyno elw'r llyfr i Mary, ail wraig a gweddw ei ffrind. Daeth C. H. Spurgeon i bregethu ar ei wahoddiad ym mis Medi 1860 gan ddigio'r Wesleaid lleol â'i Galfiniaeth gref, ond fe drefnodd Spurgeon hefyd bum swllt yr wythnos o gronfa Bedyddwyr Lloegr i Mary. *Cysondeb y Ffydd*, clamp o lyfr diwinyddol, oedd campwaith llenyddol Morgan. Bu pedwar o'i bum plentyn farw yn eu hugeiniau.

## Llangristiolus

Ychydig i'r de o Langefni ar hyd yr A5114, fe welwn Eglwys Gristiolus (LL77 7YE) yn union ar y chwith. Yn y fynwent, wrth ben eithaf wal yr eglwys, yr un ochr â'r porth, mae colofn yn nodi bedd Richard Owen (1839–87), 'Y Diwygiwr'. Fe'i ganed yn y plwyf a bu'n byw ym Mhentraeth, yr ochr draw i Langefni. Ychydig iawn o addysg a gafodd, ac fe bregethai'n syml ac yn uniongyrchol. Ond cymaint oedd ei ddifrifwch a'i ysbryd gweddigar fel y bu amryw o adfywiadau lleol ledled Cymru o dan ei weinidogaeth o 1873 hyd 1884. Y casgliad y daeth y Prifathro T. C. Edwards iddo, wrth ysgrifennu rhagair i'w gofiant yn 1889, oedd: *Ein perygl presennol fel cenedl ydyw mawrygu addysg a diwylliant ar draul anghofio fod Ysbryd Duw yn cyfrannu doniau yn yr eglwys yn ôl ei ewyllys ei hun.*

*(Mae'r ffigyrau mewn cromfachau yn dangos y codau post agosaf. Gallant fod ganllath neu fwy i ffwrdd o'r safleoedd y cyfeirir atynt.)*

## Bro Llangefni ac Anghydfurfiaeth gynnar

Bu Anghydfurfiaeth yn hir cyn cael gafael ar Fôn. Hi, ynghyd â Meirionnydd, oedd fwyaf ffyddlon i'r Eglwys Wladol o holl siroedd Cymru. Gwrthodai dderbyn unrhyw bregethwr Anghydfurfiol a fentraï yno. Mae John Hughes, hanesydd cynnar y Methodistiaid, yn awgrymu mai yn ardal Llangefni y gwelwyd yr her gyntaf i awdurdod yr Eglwys:

*Tua'r flwyddyn 1730, sef tua chwe blynedd cyn i Harris a Rowland dorri allan yn y Deheubarth, dechreuodd rhyw gyffro dirgelaidd ym meddyliau meibion Thomas Pritchard o'r Tŷ Gwyn [ym mhlwyf Heneglwys] yn agos i Langefni. Cynhyrchwyd y cyffro hwn trwy ddarllen y Beibl, a thrwy sylwi ar ei gynwysiad.*

O 1730 ymlaen, yn ôl y traddodiad, byddai aelodau'r teulu yn hwylio ar draws y Fenai ac yn ymuno ag Annibynwyr Capel Helyg, Eifionydd, i addoli. Mae Tŷ-gwyn (LL77 7PQ) wrth ochr cronfa ddŵr Llyn Cefni, tua milltir i'r gorllewin o Langefni. Wedi priodi, symudodd meibion y teulu i ffermdai Trefollwyn, Bwlch-y-fen-bentir, a Cherrigceinwen, i gyd o fewn milltir neu ddwy i'w hen gartref. (Mae'r pedair fferm i'w gweld ar fap 'Landranger' yr Arolwg Ordnans.) Cafodd Methodistiaeth gynnar Môn groeso ar yr aelwydydd hyn maes o law.

Yn 1742 daeth William Prichard (1702–73) o Langybi, Llŷn, i fyw i Benmynydd (dwy filltir i'r dwyrain o Langefni). Symudodd wedyn i Landdaniel-fab, ac yna i ffermdy Clwchdernog yn Llanddeusant (tair milltir i'r gogledd o Fodedern) o 1749 tan ei farwolaeth. Roedd yn Eglwyswr pan ddaeth i'r ynys, ond eisoes wedi profi tröedigaeth ac yn ffrindiau â'r Parch. Lewis Rees, Llanbryn-mair. Ef oedd arloeswr Annibyniaeth Môn, a chafodd ei erlid yn ffyrnig ac yn gyson. Mae ei fedd ym mynwent capel Ebenezer, Rhos-meirch, Llangefni, (LL77 7NJ) ar y B5411, a cheir cofeb iddo o fewn y capel. Rhos-meirch yw mam-eglwys Anghydfurfiaeth y sir. Cododd William Prichard y capel cyntaf ar y safle yn 1749. Bu Benjamin Jones (1756–1823), y gŵr y bu ei bregeth yn Llanfyllin yn 1796 yn achos argyhoeddi Ann Griffiths, yn weinidog yma o 1784 i 1789, ac yn y festri mae pulpud o eiddo John Elias a ddaeth yma o hen gapel Dinas Llangefni.

### Methodistiaeth gynnar

Yn 1741, ysgrifennodd Howel Harris yn ei ddyddiadur: 'Teimlais y fath gariad a thosturi atynt yng Ngogledd Cymru ac yn arbennig sir Fôn lle ni bu neb a lle mae tywyllwch eithaf, a theimlais fy hun yn barod i fyned a byw a marw yn eu mysg yno a chipio eu heneidiau o uffern.' Ond nid Harris gafodd y fraint o fod y cyntaf i gyflwyno'r Adfywiad Methodistiaid i'r ynys. Daeth Richard William Dafydd (fl. 1740–52) o Landyfaelog, sir Gâr, ar daith yma yn 1740/1.

*'Safai i fyny wrth Groes Arthur, ym mhlwyf Mechell; ond ni chafodd nemawr lonyddwch. Ymgasglodd lluo o erlidwyr i'r lle... rhuthrasant ar y pregethwr, fel pe gwnaethasai ryw anferth o ddrwg iddynt, gan ei faeddu yn ddirugaredd.'*

Ymhen amser daeth Llangefni yn ganolfan i'r Methodistiaid a'r Bedyddwyr ar yr ynys. Dyma lle roedd cartrefi dau 'esgob' yr enwadau hynny, John Elias a Christmas Evans. Mae eu bywydau ill dau, fel prif bregethwyr eu henwadau, yn ddigon cyfarwydd. Trwy eu gweinidogaeth plannwyd dros ddeugain eglwys yn y sir.

**Christmas Evans** (1766–1838) ddaeth yma gyntaf, yn 1791. Bu'n byw yn nhŷ capel Capel Cildwrn (LL77 7NN). Mae cofeb iddo ar y wal a bedd ei wraig gyntaf, Catherine, yn y fynwent. Gadawodd yr ynys yn 1826 pan dderbyniodd alwad gan gapel Tonyfelin, Caerffili. Yn 1897 adeiladwyd Capel Penuel (LL77 7EF), ar gornel Stryd y Cae a Ffordd Glandŵr yng nghanol Llangefni, yn gapel coffa iddo. Daeth y gofeb i Christmas Evans o fewn yr adeilad o gapel Cildwrn.

Llanfellech, yn rhan ogleddol yr ynys, oedd cartref cyntaf **John Elias** (1774–1841) yn y sir, o 1799 i 1828, ond daeth i'r 'Fron', Llangefni, ar ôl ei ail briodas yn 1830, ac yma y bu am weddill ei oes. Mae'r 'Fron' yn dŷ preifat oddi ar Lôn Fron (LL77 7HB), lôn ar y chwith cyn cyrraedd pont rheilffordd ar yr A5114 ar y ffordd i mewn i Langefni. Mae cofeb i John Elias ar wal y tŷ. Wedi pasio dan y bont, mae Moriah (MC), Capel Coffa John Elias, ar y dde (LL77 7WY).